



Dyddiad cyhoeddi: 10 Awst 2020

Gorsaf Llanelli

Diolch am eich cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar 17 Gorffennaf 2020. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Gofynnoch faint o drenau'r dydd sy'n stopio yn Llanelli ac a yw hynny un nifer ag sy'n stopio yng ngorsaf Caerfyrddin, hefyd a yw'r un cyfleusterau ar agor (ar hyn o bryd ac ar ôl y gwelliannau yn y ddwy orsaf) ac a ydych chi'n bwriadu cyflogi'r un nifer o staff â'r hyn rydych chi'n ei gyflogi yng Nghaerfyrddin ar hyn o bryd, ac os yw'n wahanol pam? Hefyd, pa welliannau sydd ar y gweill ar gyfer Llanelli ac a yw'r cyfleusterau hyn yn bodoli eisoes yng ngorsaf Caerfyrddin.

O ran nifer y trenau sy'n stopio yn Llanelli o gymharu â Chaerfyrddin, ar gyfer dydd nodweddiadol o'r wythnos, mae gan ein hamserlen bresennol 45 gwasanaeth trên yn stopio yn Llanelli a 60 gwasanaeth trên yn stopio yng Nghaerfyrddin. Cofiwch nad ydym yn dilyn amserlen lawn ar hyn o bryd ar sail lefelau cyn y cyfyngiadau symud. Cyn y cyfyngiadau symud, byddai gan ein hamserlen sylfaenol 69 gwasanaeth trên yn stopio yng Nghaerfyrddin, a 69 gwasanaeth yn stopio yn Llanelli yn ystod diwrnodau'r wythnos. Er bod nifer y gwasanaethau'r un fath, ni fyddai'r rhain yn pasio drwy'r ddwy orsaf. Er enghraifft, bydd rhai trenau sy'n stopio yn Llanelli yn gwasanaethu rheilffordd Calon Cymru ac felly ni fyddent yn teithio i Gaerfyrddin. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys gwasanaethau trenau gan weithredwyr eraill fel Great Western Railway.

O ran y cyfleusterau presennol yn Llanelli a Chaerfyrddin, gallwch weld rhestr ohonynt ar ein gwefan yn <https://trc.cymru/lleoedd/gorsafoedd>. Mae gan y ddwy orsaf gyfleusterau tebyg, ar wahân i'r ffaith nad oes gan Lanelli lefydd parcio yn yr orsaf na mynediad heb risiau ar hyn o bryd. Mae gan orsaf Caerfyrddin oriau agor hirach yn ei swyddfa docynnau, ond mae peiriannau gwerthu tocynnau ar gael yn y ddwy orsaf.

Nid ydym yn gallu darparu nifer y staff rydym yn eu cyflogi ym mhob gorsaf am resymau diogelwch. Yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, nid yw TrC yn gorfod darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan ei bod yn destun esemptiad statudol i'r hawl mynediad at wybodaeth dan adran 38. Mae defnyddio'r esemptiad hwn yn destun asesiad o'r budd cyhoeddus mewn perthynas â datgelu'r wybodaeth dan sylw. Mae TrC yn cydnabod yr angen i awdurdodau cyhoeddus fod yn agored a thryloyw a graddau'r budd cyhoeddus mewn perthynas â nifer y staff mewn gorsafoedd. Fodd bynnag, yn yr achos hwn mae'r risg o gyhoeddi manylion nifer y staff yng ngorsafoedd Llanelli a Chaerfyrddin yn ystyriaeth bwysicach.

Er nad oes gan orsaf Llanelli faes parcio na mynediad heb risiau ar hyn o bryd, rydym wedi ymrwymo i ehangu ein meysydd parcio i wella hygyrchedd yn ein gorsafoedd fel rhan o'n masnachfaint. Nid oedd Pennaeth ein Prosiectau Gorsafoedd yn ymwybodol o'r hen safle sinema. Fodd bynnag, gallwn drosglwyddo unrhyw wybodaeth bellach sydd gennych chi am hyn i ni ei hadolygu. Mae ein tîm Prosiect Gorsafoedd wedi cyflwyno dau gynllun datblygu posibl yn Llanelli i'n rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol iddynt eu hystyried. Yn anffodus, hyd i



benderfyniad gael ei wneud ynghylch pa gynnig sydd fwyaf addas ac ymarferol, nid ydym yn gallu darparu rhagor o wybodaeth i chi am y gwelliannau sydd ar y gweill.

Diolch hefyd am eich adborth a'ch awgrymiadau ynghylch gorsaf Llanelli a gobeithio ein bod wedi gallu darparu atebion boddhaol i'ch cwestiynau. Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych chi ymholiadau, awgrymiadau neu sylwadau pellach ynghylch ein gorsafoedd a'n gwasanaethau.

Yn gywir

Jeremy Morgan

(Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Swyddog Rhyddid Gwybodaeth)